S4C /

**Swyddog Materion Cyhoeddus**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

## Pam ymuno â S4C?

Mae S4C yn fwy na sianel deledu – rydym yn darparu gwasanaeth cyhoeddus unigryw sy’n chwarae rhan ganolog ym mywyd diwylliannol, democrataidd a chymdeithasol Cymru.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â S4C, wrth i ni weithredu ein strategaeth newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Rydym yn ehangu gwylio gyda’n cynnwys, yn datblygu’n wasanaeth digidol-yn-gyntaf, ac yn ymestyn ein heffaith y tu hwnt i’r sgrin gan gyfrannu’n gadarnhaol at ffyniant yr iaith, diwylliant Cymru a’r economi greadigol.

Rydym ni’n chwilio am unigolyn brwdfrydig, trefnus a dibynadwy i ymuno â ni fel Swyddog Materion Cyhoeddus. Byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i sicrhau bod lle S4C o fewn bywyd cyhoeddus Cymru mor gryf, dylanwadol ac ysbrydoledig ag erioed.

Yn S4C, rydym ni’n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy’n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

**Ar Dy Orau, Balch o S4C, Cer Amdani, Dathlu Pawb.**

Byddwch yn ymuno â S4C ar adeg o newid cyffrous, gan gyfrannu at ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy’n ysbrydoli, diddanu ac adlewyrchu Cymru gyfan.

## Trosolwg o’r Swydd

Fel Swyddog Materion Cyhoeddus, byddwch yn cefnogi’r Pennaeth Materion Cyhoeddus i wireddu gweithgareddau ymgysylltu S4C, gan helpu i adeiladu a chynnal perthnasau cadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol, monitro datblygiadau polisi a gwleidyddol, a chyfrannu at gyfathrebu clir ac effeithiol ar faterion sy’n bwysig i’r sianel.

Mae’r rôl hon yn addas i rywun sy’n mwynhau cyfathrebu, dylanwadu ac adeiladu perthnasau ar draws bywyd cyhoeddus Cymru a’r Deyrnas Unedig.

Byddwch yn gweithio’n agos gyda thimau ar draws S4C i sicrhau dull unedig ac ysbrydoledig o hyrwyddo cenhadaeth gyhoeddus S4C.

## Beth fyddwch chi’n ei wneud?

- Cefnogi amcanion materion cyhoeddus S4C gan nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar drafodaethau polisi a hyrwyddo blaenoriaethau S4C.
- Monitro datblygiadau polisi a gwleidyddol, yng Nghymru a’r DU, sy’n berthnasol i S4C a’r sector cyfryngau.
- Llunio briffiau, crynodebau ac adroddiadau i lywio penderfyniadau mewnol a chynorthwyo uwch swyddogion mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Cefnogi gwaith lobïo ac eiriolaeth S4C drwy baratoi briffiau neu lythyrau swyddogol i ASau a rhanddeiliaid perthnasol.
- Paratoi newyddlen materion cyhoeddus rheolaidd i fynd at ASau a rhanddeiliaid allweddol.
- Cefnogi’r gwaith o baratoi ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus a briffiau i’r Bwrdd neu’r Uwch Dîm Arwain ar faterion allweddol.

S4C /

- Trefnu a bod yn bresennol mewn digwyddiadau corfforaethol. Gall hyn olygu derbyniadau, cyfarfodydd cyhoeddus a dangosiadau ar hyd a lled Cymru a Lloegr.
- Cydlynu ymweliadau a digwyddiadau ar gyfer gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi yng Nghymru a'r DU.
- Cydweithio â thimau mewnol megis Cyfathrebu a Chynnwys i sicrhau dull cyson ac integredig o ymgysylltu â rhanddeiliaid S4C.
- Datblygu a chynnal cronfa ddata rhanddeiliaid a systemau monitro i gefnogi gwaith y tîm ehangach, gan sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol ac yn effeithiol.
- Helpu i gynllunio calendr blynyddol gweithgareddau materion cyhoeddus a chorfforaethol S4C.
- Helpu i fesur ac adrodd ar effaith gweithgareddau materion cyhoeddus, gan ddangos sut mae'r gwaith yn cyfrannu at amcanion strategol S4C.
- Gweithio'n agos â'r Pennaeth Materion Cyhoeddus ar ymateb i ymholiadau neu ddatblygiadau ar frys.
- Datblygu dealltwriaeth barhaus o dueddiadau polisi, deddfwriaethol a'r cyfryngau i lywio blaenoriaethau'r sefydliad.

**Byddwch chi hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C ac yn cymryd cyfrifoldeb personol dros ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau fel y bo'n ofynnol, gan gynnwys gweithio o fewn canllawiau iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, diogelu data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at ein diwylliant mewnol ac at gyflawni strategaeth S4C.
- Cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell ac yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn modd cadarnhaol, cydweithredol, traws-sefydliad, gan ddatblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr, a sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysol sy'n trin pawb ag urddas a pharch.

**Byddwch chi'n llwyddo yn y rôl os:**

- Oes gennych ddealltwriaeth dda o'r dirwedd wleidyddol a pholisi yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.
- Rydych yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae gennych sgiliau rhyngbersonol cryf i feithrin perthnasau â rhanddeiliaid a gweithio'n effeithiol ar draws timau.
- Rydych yn drefnus iawn ac yn gallu rheoli llwyth gwaith yn effeithiol mewn amgylchedd prysur.
- Rydych yn gallu dadansoddi gwybodaeth gymhleth a llunio deunyddiau ysgrifenedig clir.
- Rydych yn dangos crebwyll gwleidyddol ac yn deall sut mae penderfyniadau cyhoeddus yn effeithio ar sefydliadau.
- Rydych yn ymrwymedig i werthoedd S4C ac i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eich gwaith.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg o fewn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd.

- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol hyd at 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch â Mali.Williams@s4c.cymru

**Yn eich cais**, sicrhewch eich bod yn tynnu sylw at y sgiliau a'r profiad sydd gennych chi sydd yn berthnasol i'r nodweddion a restrir yn y manyleb person isod ac sydd yn gydnaws â gwerthoedd craidd S4C. Rhowch enghreifftiau clir sydd yn dangos pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

**Manyleb Person**

| Nodweddion | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o weithio mewn amgylchedd lle mae materion gwleidyddol, polisi neu gyhoeddusrwydd yn berthnasol.<br><br>Profiad o feithrin a chynnal perthynas gadarnhaol gyda rhanddeiliaid.<br><br>Profiad o drefnu a chydlynu digwyddiadau neu weithgareddau ymgysylltu allanol.<br><br>Profiad o gasglu, dadansoddi a llunio gwybodaeth, adroddiadau neu ddeunyddiau cyfathrebu.<br><br>Profiad o flaenoriaethu tasgau a rheoli llwyth gwaith yn effeithiol mewn amgylchedd prysur. | Profiad o weithio ym maes materion cyhoeddus neu wleidyddiaeth.<br><br>Profiad o gyfathrebu corfforaethol.<br><br>Profiad o lunio a gweithredu ymgyrchoedd i ddylanwadu ar randdeiliaid. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Y gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg – ar lafar ac yn ysgrifenedig. (*Mae S4C yn cynnig cymorth i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg*.) | Dealltwriaeth dda o rôl cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'r cyd-destun statudol, rheoleiddiol a diwylliannol mae S4C yn gweithredu ynddo.<br><br>Y gallu i gasglu, dadansoddi a chyfathrebu gwybodaeth gymhleth |

| | | |
|---|---|---|
| | Dealltwriaeth gadarn o'r dirwedd wleidyddol a pholisi yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.<br><br>Sgiliau trefnu a chynllunio rhagorol.<br><br>Sgiliau ysgrifenedig cryf, gan gynnwys y gallu i grynhoi gwybodaeth gymhleth.<br><br>Sgiliau TG er mwyn olrhain, dadansoddi a threfnu gwybodaeth (i gefnogi gweithgareddau materion cyhoeddus). | mewn ffordd sy'n llywio penderfyniadau ac yn dylanwadu ar randdeiliaid.<br><br>Dealltwriaeth dda o weithdrefnau Senedd Cymru a San Steffan.<br><br>Trwydded yrru lawn. |
| **Nodweddion Personol** | Lefel uchel o uniondeb personol a fynegir drwy ymddygiad.<br><br>Y gallu i weithio'n annibynnol ac o fewn tîm.<br><br>Hunan-gymhelliant a pharodrwydd i ddysgu.<br><br>Ymrwymiad i hybu a chefnogi defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Yr hyder i ddelio gyda'r cyhoedd ac unigolion pwysig fel ei gilydd mewn ffordd gynhwysol.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg. | Crebwyll gwleidyddol.<br><br>Brwdfrydedd dros genhadaeth S4C.<br><br>Y gallu i feddwl yn greadigol i ddatrys problemau a dylanwadu ar benderfyniadau. |

**Manylion eraill**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 2 diwrnod mewn swyddfa) |
| **Cyflog:** | £37,000 y flwyddyn |
| **Cytundeb:** | Parhaol |
| **Oriau gwaith:** | 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |

S4C /

| | |
|---|---|
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o’r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o’ch cyflog sylfaenol i’r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Teithio:** | Bydd teithio achlysurol yn rhan o’r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig |

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **9.00 ar ddydd Llun 26 Ionawr 2026** at Pobl@s4c.cymru neu at Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Nid ydym yn derbyn CV.

Mae croeso i chi gyflwyno cais yn Gymraeg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi’n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu’ch profiad a’ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi’u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi’i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu’ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo’r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i’r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae’n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi’u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

**Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg a gloywi iaith yn y gweithle.